Archwilio Cymru
Audit Wales

# Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2020-21

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r ddogfen hon yn pdf rhyngweithiol

I lywio drwy'r ddogfen defnyddiwch y botymau ar ochr dde'r dudalen a'r dolenni wedi'u marcio â thestun wedi'i danlinellu

Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
Proses
Yn ôl Nesaf

# Negeseuon allweddol

Ers i ni adrodd ar y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru ddiwethaf ym mis Hydref 2020, mae deilliannau â gwerth o £6.5 miliwn wedi cael eu cofnodi. Mae deilliannau cronnus y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru ers 1996 bellach yn £49.4 miliwn. Ledled y DU, mae cyfanswm cronnus deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol bellach yn £2.37 biliwn.

Fe ostyngodd deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru £2.7 miliwn i £8.0 miliwn yn ymarfer 2020-21. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod llai o geisiadau anghymwys ar gyfer Gostyngiad i Ostyngiad Person Sengl Treth y Cyngor a hawliadau Budd-dal Tai wedi'u canfod, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod rhai awdurdodau lleol wedi dechrau adolygu pariadau'r NFI yn hwyrach na'r arfer yn sgil pwysau COVID-19.

Mae rhannu data'n ei gwneud yn bosibl paru data rhwng cyrff ac ar draws ffiniau gwledydd. Fe wnaeth data a gyflwynwyd gan gyrff yng Nghymru ar gyfer ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21 helpu sefydliadau eraill mewn rhannau eraill o'r DU i adnabod 153 o achosion o dwyll a gwallau gyda deilliannau gwerth £183,045.

Er bod y mwyafrif o gyfranogwyr yn y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru'n dangos ymrwymiad cryf i atal twyll, fe wnaeth 13 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru adnabod 95% o'r deilliannau o ran twyll a gwallau a gyflawnwyd gan y sector. Mae hyn yn awgrymu bod rhai awdurdodau lleol naill ai wedi methu â chydnabod pwysigrwydd yr ymarfer neu eu bod yn amharod i ddyrannu digon o adnoddau atal twyll medrus i ymchwilio i bariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol.

Fe gytunodd un awdurdod lleol yng Nghymru, Cyngor Caerdydd, i gyfranogi mewn ymarfer a oedd wedi'i fwriadu i adnabod twyll a gwallau mewn ceisiadau am grantiau cymorth busnes COVID-19 trwy wirio manylion banc a statws masnachu. Fe helpodd y gwiriadau hyn i adnabod deilliannau gwerth £0.6 miliwn mewn perthynas â 41 o geisiadau twyllodrus neu wallus.

Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

Proses

Yn ôl Nesaf

## Argymhellion

Dylai'r holl gyfranogwyr yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol sicrhau eu bod yn cynyddu manteision eu cyfranogiad i'r eithaf. Dylent ystyried a yw'n bosibl gweithio'n fwy effeithlon ar bariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol trwy adolygu'r adran gyfarwyddyd o fewn cymhwysiad gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol.

Lle mae archwilwyr lleol yn argymell gwella amseroldeb a thrylwyredd y broses o adolygu pariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol dylai cyfranogwyr yn y Fenter Twyll Genedlaethol gymryd camau gweithredu priodol.

Dylai pwyllgorau archwilio, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, a swyddogion sy'n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol adolygu rhestr wirio hunan-arfarnu'r Fenter Twyll Genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth lawn am waith cynllunio a chynnydd eu sefydliad yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2022-23.

Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

Proses

Yn ôl Nesaf

# Deilliannau

## Deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol

Ymarfer atal twyll ar draws y sector cyhoeddus yn y DU sydd wedi'i fwriadu i atal a chanfod twyll yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn defnyddio prosesau rhannu a pharu data i helpu i gadarnhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ar gyfer y bobl gywir.

Mae deilliant o ganlyniad i'r Fenter Twyll Genedlaethol yn disgrifio'r symiau ar y cyfan ar gyfer twyll, gordaliadau a gwall a ganfuwyd gan ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol ac amcangyfrif o golledion yn y dyfodol y mae'n eu hatal.

Cofnododd y Fenter Twyll Genedlaethol ddeilliannau o £6.5 miliwn yn 2020-21.

**Deilliannau cronnus y Fenter Twyll Genedlaethol yn y DU ers 1996-97**

**£2.37 biliwn**

**Deilliannau cronnus y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru ers 1996-97**

**£49.4 miliwn**

**Deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol ledled y DU o ymarfer 2020-21**

**£443 miliwn**

**Deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru o ymarfer 2020-21**

**£6.5 miliwn**

Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

Proses

Yn ôl Nesaf

## Tueddiadau mewn deilliannau


Mae deilliannau yng Nghymru wedi gostwng £1.5 miliwn i £6.5 miliwn yn ymarfer 2020-21. Mae'r rhesymau dros y gostyngiad yn y deilliannau'n cynnwys y canlynol:

- fe ostyngodd nifer yr hawliadau twyllodrus neu wallus am Ddisgownt Person Sengl y Dreth Gyngor a ganfuwyd o 3,939 yn ymarfer 2018-19 i 1,987 yn ymarfer 2020-21, gan arwain at ostyngiad o £2 filiwn mewn deilliannau yn y maes yma; ac
- fe ostyngodd nifer yr hawliadau twyllodrus neu wallus am Fudd-dal Tai o 179 yn ymarfer 2018-19 i 82 o achosion yn ymarfer 2020-21, gan arwain at ostyngiad o £0.6 miliwn mewn deilliannau yn y maes yma.

Cafodd y gostyngiadau uchod mewn deilliannau eu gwrthbwyso yn rhannol gan y canlynol:

- cynnydd yn nifer y ceisiadau twyllodrus neu wallus am dai cymdeithasol a ganfuwyd o 74 yn ymarfer 2018-19 i 237 yn ymarfer 2020-21, gan arwain at ddeilliannau uwch o £0.6 miliwn; a
- chanfod 43 o hawliadau twyllodrus neu wallus am grantiau cymorth busnes COVID-19 a arweiniodd at ddeilliannau cronnus o £0.6 miliwn.

Adnabuwyd deilliannau gwerth **£6.5 miliwn** yn ymarfer 2020-21




Er bod deilliannau ar y cyfan wedi gostwng, roedd hyn i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith bod llawer o gyfranogwyr yn y Fenter Twyll Genedlaethol wedi dechrau adolygu pariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn hwyrach nag arfer oherwydd pwysau gwaith a ddeilliodd o bandemig COVID-19.

Yr unig wlad lle gwelwyd cynnydd yn neilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21 oedd Lloegr. Roedd y cynnydd hwn i'w briodoli i gynnydd sylweddol mewn deilliannau pensiwn o ganlyniad i baru data cynlluniau pensiwn ledled y DU.

Byddir yn adrodd ar arbedion hwyr o ganlyniad i Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21 fel rhan o ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2022-23.

**Negeseuon allweddol**


**Deilliannau**

**Canlyniadau**

**Proses**

Yn ôl Nesaf

## Sut y mae'r deilliannau diweddaraf yn cymharu â'r ymarfer diwethaf



Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

Proses

Yn ôl Nesaf

# Fe wnaeth saith maes ddwyn bron i 98% o'r deilliannau

Mae'r meysydd a ddygodd y mwyaf o ddeilliannau o'r ymarfer cyfredol fel a ganlyn:

| Categori | £ | Achosion |
|---|---|---|
| Disgowntiau'r dreth gyngor | £2.6m | 1,987 |
| Bathodynnau glas | £1.4m | 2,717 |
| Rhestrau aros ar gyfer tai | £0.8m | 237 |
| Budd-dal tai | £0.6m | 84 |
| Grantiau cymorth busnes COVID-19 | £0.6m | 43 |
| Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor | £0.2m | 214 |
| Taliadau credydwyr | £0.1m | 9 |

Unwaith y mae gordaliadau wedi cael eu hadnabod, gall cyrff cyhoeddus gymryd camau priodol i adfer yr arian. O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2022, roedd 81% o'r gordaliadau wedi cael eu hadfer neu yn y broses o gael eu hadfer.

Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
Proses
Yn ôl Nesaf

# Canlyniadau

## Disgownt y dreth gyngor


Mae pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain, neu heb unrhyw oedolion y gellir eu cyfrif yn yr un aelwyd, yn gymwys i gael disgownt person sengl (DPS) o 25 y cant ar eu bil treth gyngor blynyddol.

Caiff data DPS y Dreth Gyngor ei baru â data'r gofrestr etholiadol i helpu i ganfod achosion lle mae pobl yn cael y disgownt, ond heb iddynt fod yr unig oedolyn y gellir ei gyfrif yn eu cartref.


Canfu ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21 fod cyfanswm disgownt y dreth gyngor a oedd wedi'i ddyfarnu'n anghywir ar draws awdurdodau lleol Cymru'n £2.6 miliwn. Mae hyn yn ddeilliant cyfartalog o £1,305 ar gyfer pob achos (£1,003 ar gyfer pob achos yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-19). Fe arweiniodd adolygiad o bariadau data'r Fenter Twyll Genedlaethol at ganslo 1,987 o hawliadau am DPS.

Er bod nifer yr hawliadau twyllodrus neu wallus am DPS a ganfuwyd wedi gostwng o 3,939 i 1,987 yn yr ymarfer cyfredol, mae hyn i'w briodoli'n rhannol i oedi cyn ymchwilio i'r pariadau oherwydd pandemig COVID-19. Mae nifer o hawliadau wedi cael eu canslo ers y dyddiad olaf ar gyfer adrodd ar ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21 a byddir yn adrodd ar y 'canlyniadau hwyr' hyn yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2022-23.

Deilliannau o **£2.6 miliwn** yn 2020-21




**1,987 o achosion** yn 2020-21



Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

Proses

Yn ôl Nesaf

# Pensiynau




Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn rhoi ffordd effeithlon ac effeithiol i awdurdodau lleol sy'n gweinyddu pensiynau allu gwirio mai dim ond i bobl sy'n fyw y maent yn talu.

Canfu'r ymarfer naw achos lle'r oedd taliadau pensiynau wedi parhau i gael eu gwneud ar ôl i bensiynwyr farw o'i gymharu â deg achos yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-19.

Ar y cyfan, mae deilliannau pensiynau ar gyfer ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21 yn £0.073 miliwn.

Mae hyn yn ostyngiad o £0.26 miliwn o'i gymharu ag ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-19, ac yn adlewyrchu effaith barhaus y broses hysbysu 'dywedwch wrthym unwaith' sy'n sicrhau bod awdurdodau lleol yn dod yn ymwybodol o farwolaeth pensiynwyr yn gynharach. Er bod nifer yr achosion a ganfuwyd gan y Fenter Twyll Genedlaethol wedi aros bron yn ddigyfnewid o'i gymharu ag ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-19, mae gwerth cyfartalog pob achos wedi gostwng o £26,396 i £8,160, am bod y cyfnod y parhawyd i dalu pensiynau ar ôl marwolaeth pensiynwyr yn fyrrach.

Deilliannau o **£0.073 miliwn** yn 2020-21



**Negeseuon allweddol**

**Deilliannau**

**Canlyniadau**

**Proses**

Yn ôl Nesaf



## Budd-dal tai

Mae’r Fenter Twyll Genedlaethol yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol a’r Adran Gwaith a Phensiynau ganfod ystod eang o achosion o dwyll a gwallau sy’n ymwneud â budd-daliadau.


Caiff data budd-daliadau tai ei baru â data benthyciadau i fyfyrwyr, cyflogresi, pensiynau, budd-daliadau tai, tenantiaid tai, trwyddedau, pobl ymadawedig ac Amberhill* i helpu i ganfod hawliadau anghymwys.

Mae gwerth a nifer yr achosion budd-dal tai y cofnodwyd gordaliadau ar eu cyfer wedi gostwng o £1.2 miliwn (179 o achosion) yn ymarfer 2018-19 i £0.6 miliwn (82 o achosion) yn ymarfer 2020-21.

Mae’r gostyngiad mewn deilliannau sy’n ymwneud ag achosion budd-dal tai i’w briodoli’n bennaf i’r ffaith na chafodd pariadau rhwng taliadau budd-dal tai a’r gyflogres a phensiynau eu cynnwys yn ymarfer 2020-21. Roedd y pariadau hyn yn hanesyddol yn adnabod deilliannau sylweddol. Ni chafodd y pariadau hyn eu cynnwys gan bod ymarfer paru data tebyg yn cael ei gyflawni gan wasanaeth Rhybuddion Gwirio Enillion a Phensiynau (VEP) yr Adran Gwaith a Phensiynau sy’n adnabod anghysonderau rhwng manylion y gyflogres a phensiwn a ddelir gan Cyllid a Thollau EM a gwasanaethau budd-daliadau cynghorau. Anfonir rhybuddion o VEP at awdurdodau lleol er mwyn iddynt ymchwilio i anghysonderau.

* System a ddefnyddir gan yr Heddlu Metropolitan i ddilysu dogfennau a gyflwynir i brofi pwy yw pobl yw Amberhill.

Deilliannau o **£0.6 miliwn** yn 2020-21




Roedd y mwyafrif o’r hawliadau twyllodrus a gwallus am fudd-dal tai a ganfuwyd gan awdurdodau lleol yn ymarfer 2020-21 yn ymwneud â myfyrwyr a oedd yn cael budd-dal tai pan nad oedd hawl ganddynt.

Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
Proses
Yn ôl Nesaf

## Astudiaeth Achos: Budd-dal tai

### Cyngor Sir Gâr

Mae'r Cyngor yn parhau i gydnabod gwerth y Fenter Twyll Genedlaethol o ran gwarchod pwrs y wlad rhag bygythiad risgiau o dwyll ac mae'n ystyried bod y Fenter Twyll Genedlaethol yn amhrisiadwy o ran canfod ac atal twyll. Canfu ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21, 33 o bariadau rhwng budd-dal tai a benthyciadau i fyfyrwyr ac o'r rhain roedd 13 yn bariadau risg uchel. Yn hanesyddol mae'r Cyngor wedi cyflawni canlyniadau arwyddocaol o'r adroddiad penodol hwn ac, fel mewn ymarferion blaenorol, fe estynnodd y broses wirio i'r holl bariadau. Adnabu adolygiad o'r adroddiad dwyll mewn 30% o'r pariadau, lle cadarnhawyd fod cwsmeriaid budd-daliadau wedi methu â datgan eu bod yn cael cyllid/benthyciadau i fyfyrwyr. Arweiniodd y 10 ymchwiliad hyn at ganfod gordaliadau gwerth mwy na £33,000 mewn perthynas â budd-daliadau. Mae'r Cyngor wedi adfer y gordaliadau neu mae'n dal i fod yn y broses o'u hadfer yn llawn.

Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

Proses

Yn ôl Nesaf

# Bathodynnau glas

Mae'r cynllun parcio bathodynnau glas yn caniatáu i bobl â phroblemau symudedd barcio am ddim wrth fesuryddion parcio ar y stryd, mewn cilfachau talu ac arddangos, mewn mannau a neilltuwyd ar gyfer deiliaid bathodynnau glas, ac ar linellau melyn sengl neu ddwbl dan rai amgylchiadau.


Caiff data bathodynnau glas ei baru â data ar bobl ymadawedig a data Amberhill.

Mae bathodynnau'n cael eu defnyddio neu eu hadnewyddu'n amhriodol gan bobl weithiau ar ôl i ddeiliad y bathodyn farw. Mae'n drosedd i rywun diawdurdod ddefnyddio bathodyn glas.

Fe arweiniodd ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21 at ganslo 2,717 o fathodynnau glas yng Nghymru. Mae nifer y bathodynnau a ganslwyd wedi cynyddu ym mhob un o ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol ers ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2012-13. Amcangyfrifir mai gwerth yr achosion hyn yw £1.4 miliwn yn seiliedig ar gyfrifiad o'r gost amcangyfrifedig flynyddol o refeniw parcio a gollir a'r tebygolrwydd y bydd y bathodynnau glas hyn yn cael eu camddefnyddio.

Mae'r cynnydd mewn deilliannau i'w briodoli i gydnabyddiaeth gynyddol i'r angen i atal camddefnydd o fathodynnau glas. Nid yn unig mae camddefnydd o'r fath yn lleihau refeniwiau parcio, mae hefyd yn cyfyngu ar y cyfleusterau parcio sydd ar gael i ddeiliaid bathodynnau glas diledryw.

**2,717** o ddeilliannau yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21



Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
Proses
Yn ôl Nesaf

## Rhestrau aros ar gyfer tai

Mae’r Fenter Twyll Genedlaethol yn defnyddio data rhestrau aros ar gyfer tai i ganfod achosion posibl o dwyll rhestrau aros. Mae hyn yn digwydd pan fo unigolyn wedi cofrestru ar y rhestr aros ond bod newidiadau posibl sydd heb eu datgelu yn ei amgylchiadau neu wybodaeth anwir wedi cael ei darparu. Roedd hon yn set ddata newydd ar gyfer ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2016-17.


Caiff data rhestrau aros ar gyfer tai ei baru â data rhestrau aros, budd-dal tai, tenantiaid tai, pobl ymadawedig ac Amberhill.

Adnabu awdurdodau lleol 237 o achosion lle cafodd ymgeiswyr eu tynnu oddi ar restrau aros o’i gymharu â 74 o achosion yn 2018-19.

Mae gwerth amcangyfrifedig yr achosion hyn ychydig o dan £0.8 miliwn yn seiliedig ar gyfrifiad o gost amcangyfrifedig flynyddol cartrefu teulu mewn llety dros dro a’r tebygolrwydd y byddai cartref yn cael ei ddarparu ar gyfer ymgeisydd ar restr aros.

Mae’r cynnydd yn nifer y ceisiadau a ganslwyd i’w briodoli i fwy o ymdrechion gan awdurdodau lleol i adolygu pariadau data’r Fenter Twyll Genedlaethol gan felly helpu i sicrhau mai dim ond ar gyfer pobl gymwys y darperir tai cymdeithasol.

Nifer ymgeiswyr yn cael eu tynnu oddi ar restrau aros am dai



Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
Proses
Yn ôl
Nesaf

# Taliadau i gredydwyr


Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn darparu ffordd effeithlon o wirio am daliadau dyblyg ac mai dim ond i gredydwyr priodol y gwneir taliadau.

Caiff data ar daliadau i gredydwyr ei baru hefyd â data cyflogresi a data Tŷ'r Cwmnïau i helpu i adnabod buddiannau staff nas datgelwyd mewn cyflenwyr.

Arweiniodd ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21 at 54 o ddeilliannau taliadau i gredydwyr yr oedd eu cyfanswm ychydig dros £0.1 miliwn o'i gymharu â 53 o ddeilliannau yr oedd eu cyfanswm ychydig o dan £0.1 miliwn yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-19. Mae camau adfer eisoes wedi digwydd ar gyfer yr holl ordaliadau hyn.

Mae deilliannau taliadau i gredydwyr wedi gostwng dros ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol gan bod cyrff sy'n cyfranogi wedi gwella'u systemau rheolaeth fewnol.

Deilliannau o **£0.1 miliwn** yn 2020-21



Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
Proses
Yn ôl Nesaf

## Gostyngiadau'r dreth gyngor

Mae gostyngiadau'r dreth gyngor yn helpu'r rhai ar incwm isel i dalu eu biliau treth gyngor.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn rhoi'r cyfle i awdurdodau lleol adnabod ystod o achosion o dwyll a gwallau sy'n ymwneud â'r dreth gyngor.


Caiff data ar ostyngiadau'r dreth gyngor ei baru â data gostyngiadau'r dreth gyngor, cyflogresi, cyflogresi pensiynau, budd-daliadau tai, tenantiaid tai, trwyddedau, pobl ymadawedig ac Amberhill.

Ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2016-17 oedd y tro cyntaf i setiau data gostyngiadau'r dreth gyngor gael eu cynnwys o fewn y Fenter Twyll Genedlaethol.

Adnabuwyd deilliannau o £0.21 miliwn yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21 a chafodd hawliadau am ostyngiadau'r dreth gyngor eu diwygio neu eu canslo mewn 214 o achosion.

£1,015 oedd gwerth cyfartalog pob achos o'i gymharu â £1,457 yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-19 sy'n awgrymu bod twyll a gwallau'n cael eu hadnabod yn gynharach.

Deilliannau o **£0.21 miliwn** yn 2020-21



## Astudiaeth achos: Cyngor Bro Morgannwg

Mae gan y Cyngor ddull rhagweithiol a chynhwysfawr o adolygu holl bariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol. Caiff holl bariadau gostyngiadau'r dreth gyngor eu hadolygu gan y Swyddog Ymchwilio yn erbyn systemau mewnol y Cyngor i geisio cadarnhau statws aelwyd presennol hawlyddion. Roedd un pariad o'r fath i'w weld fel pe bai'n dangos bod yr hawlydd heb ddatgan pensiwn galwedigaethol a oedd yn cael ei dalu ers 2018. Fe wnaeth y Swyddog Ymchwilio gynghori'r Tîm Budd-daliadau bod angen ymchwilio ymhellach. Bu'r Tîm Budd-daliadau mewn cysylltiad â'r Tîm Refeniwiau a chanfu fod rhywun arall yn byw yn y cyfeiriad a oedd hefyd yn cael pensiwn galwedigaethol nas datganwyd ac a oedd wedi cael cyfandaliad pensiwn sylweddol yn 2018. Er gwaethaf ymdrechion niferus i wirio'r sefyllfa gyfredol gyda'r hawlydd, fe fethodd yr hawlydd ag ymateb. Mae'r Cyngor wedi canslo'r hawliad ac mae'r hawlydd wedi cytuno i ad-dalu gorhawliad o £4,775 mewn rhandaliadau misol.

Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

Proses

Yn ôl Nesaf

# Defnyddio Data CThEM yn y Fenter Twyll Genedlaethol

Yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21, am y tro cyntaf, cafodd pariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru eu cyfoethogi gan ddata CThEM a ddarparwyd dan ddarpariaethau Deddf yr Economi Ddigidol 2017. Mae data CThEM yn profi'n hynod effeithiol er mwyn helpu i adnabod ymgeiswyr sydd wedi hawlio budd-daliadau a disgowntiau sy'n dibynnu ar brawf modd ond nad ydynt wedi datgan incwm a ddylai fod wedi cael ei ddatgan ar eu ceisiadau.



## Astudiaeth Achos: Cyngor Sir Ddinbych

Aeth y Cyngor ati'n rhagweithiol i adolygu pariadau rhwng Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a chyfansoddiad aelwydydd CThEM. Roedd un pariad yn awgrymu bod rhywun annibynnol a oedd heb ei ddatgan ar yr aelwyd ers 2017, felly rhoddwyd y gorau i dalu budd-daliadau. Roedd y Tîm Budd-daliadau wedi cael ei hysbysu'n flaenorol bod yr unigolyn wedi gadael yr aelwyd ym mis Mawrth 2017. Ar ôl ymchwilio, fe wnaeth y cwsmer gadarnhau'r methiant i ddatgan yr aelod annibynnol ers mis Mai 2017. Dangosodd pariad y Fenter Twyll Genedlaethol fod enillion yr aelod annibynnol yn agos at y trothwy a fyddai'n golygu bod y didyniad uchaf i fudd-daliadau'r hawlydd yn cael ei gymhwyso, felly yn niffyg tystiolaeth bellach o incwm yr aelod annibynnol, cafodd y didyniad uchaf ei gymhwyso. Fe arweiniodd hyn at orhawliad a oedd yn gyfanswm o £20,782. Mae'r Cyngor yn y broses o adfer y gorhawliad hwn.

Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
Proses
Yn ôl Nesaf

# Grantiau cymorth busnes COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, sefydlodd Llywodraeth Cymru becyn o fesurau i gefnogi busnesau trwy gydol yr argyfwng. Roedd un o'r mesurau hyn yn cynnwys darparu cyllid grant trwy awdurdodau lleol Cymru ar gyfer rhai busnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden ac ar gyfer busnesau a oedd yn cael eu disgrifio fel busnesau bychain at ddibenion ardrethi busnes. Fe wnaeth y Fenter Twyll Genedlaethol baru'r grantiau hyn i sicrhau nad oedd busnesau'n hawlio grantiau lluosog yn amhriodol ac nad oedd grantiau'n cael eu dyfarnu i dwyllwyr hysbys. Dim ond dau achos o dwyll a gwallau gwerth £20,000 a adnabu'r gwiriadau hyn, gan ddarparu sicrwydd nad oedd yr arferion hyn yn gyffredin.

Trefnodd y Fenter Twyll Genedlaethol hefyd fod offer dewisol ar gael i awdurdodau lleol gadarnhau bod ymgeiswyr am grantiau'n masnachu'n weithredol cyn pandemig COVID-19, a bod manylion cyfrifon banc a ddarparwyd gan ymgeiswyr yn gysylltiedig â chyfrifon busnes dilys. Defnyddiodd un awdurdod lleol yng Nghymru, Cyngor Caerdydd, yr offer hyn ar y cyd â rheolaethau mewnol eraill i adnabod 41 o achosion o dwyll a gwallau gwerth £575,000.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Caerdydd

Yn dilyn defnyddio amryw reolaethau ymlaen llaw ar ymgeisio a thalu, defnyddiodd y Cyngor ddull aml-haen o gyflawni prosesau gwirio a sicrwydd ar ôl talu grantiau busnes COVID-19. Darparodd y Fenter Twyll Genedlaethol ffynhonnell gudd-wybodaeth ddefnyddiol fel rhan o'r gwiriadau hyn ar ôl talu. Defnyddiodd y Tîm Ymchwiliadau Twyll Corfforaethol a chydweithwyr yn y tîm Ardrethi Busnes ystod o dechnegau ymchwiliol ac fe wnaethant adnabod £575,000 o daliadau i'w hadfer. Er enghraifft, dynododd un pariad gan y Fenter Twyll Genedlaethol fod cwmni wedi rhoi'r gorau i fasnachu, awgrymodd ymholiadau ar-lein fod y busnes wedi cau a dangosodd gwiriad gyda Thŷ'r Cwmnïau fod y cwmni wedi cael ei ddiddymu cyn y dyddiad ar gyfer bod yn gymwys i gael y grant. Nid oedd y cwmni wedi hysbysu'r Cyngor eu bod wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac nad oeddent yn gymwys i gael y grant. Mae'r Cyngor wedi, neu mae'n ceisio, adfer y gorhawliadau lle bynnag y mae gobaith realistig o'u hadfer.

Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

Proses

Yn ôl Nesaf

## Taliadau i gartrefi gofal preswyl

Yn ymarferion blaenorol y Fenter Twyll Genedlaethol, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi paru data cartrefi gofal preswyl â phobl ymadawedig i adnabod achosion lle mae preswylydd mewn cartref gofal wedi marw, ond bod yr awdurdod lleol heb gael ei hysbysu ac felly wedi parhau i wneud taliadau i'r cartref gofal.

Yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-19, adnabuwyd 11 achos o ordaliadau lle'r oedd awdurdodau lleol yng Nghymru'n parhau i wneud taliadau i gartrefi gofal ar gyfer preswylwyr a oedd wedi marw. £14,545 oedd gwerth cyfartalog yr achosion hyn.

Oherwydd canlyniad anfwriadol newid i'r ddeddfwriaeth a effeithiodd ar Gymru, yr Alban a Lloegr, nid oedd yn bosibl paru data yn y maes hwn fel rhan o ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet ac Audit Scotland i ganfod datrysiad deddfwriaethol a fydd yn ei gwneud yn bosibl paru'r data hwn yn ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol yn y dyfodol.

Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

Proses

Yn ôl Nesaf

## Pariadau sydd o fudd i gyrff cyhoeddus eraill

Un o fanteision allweddol ymarfer paru data ledled y DU gyfan yw ei fod yn ei gwneud yn bosibl paru data rhwng cyrff ac ar draws ffiniau gwledydd. Fe wnaeth data a ddarparwyd gan gyfranogwyr o Gymru ar gyfer ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21 helpu cyrff cyhoeddus eraill y tu allan i Gymru ganfod deilliannau gwerth ychydig dros £183,000.

| Sector y data gwreiddiol | £ | Nifer y deilliannau |
|---|---|---|
| Awdurdodau lleol | 162,776 | 135 |
| GIG | 15,811 | 17 |
| Tân | 4,458 | 1 |
| **Cyfanswm** | **183,045** | **153** |

Mae'r rhan fwyaf o'r deilliannau hyn yn ymwneud â budd-daliadau tai, rhestrau aros ar gyfer tai a gostyngiadau'r dreth gyngor. Er enghraifft, gall data o gyflogres bwrdd iechyd alluogi awdurdod lleol i ganfod gordaliad budd-dal tai.

Ar gyfer y cyrff cyhoeddus hynny sy'n cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol nad ydynt o bosibl yn adnabod deilliannau arwyddocaol o'u pariadau hwy eu hunain bob amser, mae'n bwysig deall y gall darparu eu data helpu cyrff a sectorau eraill i adnabod achosion o dwyll a gordaliadau.

Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
Proses
Yn ôl Nesaf


# Proses

Ymarfer atal twyll ar draws sector cyhoeddus y DU sydd wedi'i fwriadu i atal a chanfod twyll yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa'r Cabinet, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon sy'n arwain yr ymarfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y drefn honno. Cynhelir y Fenter Twyll Genedlaethol bob dwy flynedd ac mae'n galluogi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio technegau paru data cyfrifiadurol i ganfod twyll a gwallau.

Prif ddiben y Fenter Twyll Genedlaethol yw sicrhau bod arian a gwasanaethau'n cael eu darparu ar gyfer y bobl gywir, ond gall y Fenter Twyll Genedlaethol hefyd adnabod unigolion sydd â hawl i wasanaethau neu daliadau ychwanegol, e.e. gall pariadau budd-dal tai adnabod cwsmeriaid sydd â hawl i ddisgownt neu ostyngiadau'r dreth gyngor.

Rydym yn cynnal proses y Fenter Twyll Genedlaethol dan bwerau yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'n bwysig i'r holl bartïon sy'n cymryd rhan bod yr ymarfer hwn yn cael ei reoli'n iawn a bod data'n cael ei drin yn unol â'r gyfraith. Mae Cod Ymarfer Paru Data gan yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r ddeddfwriaeth a rheolaethau allweddol ar gyfer ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol.

Yng Nghymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gorchymyn bod awdurdodau lleol unedol a chyrff y GIG yn cyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru, rhai Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru'n cyfranogi ar sail wirfoddol.



Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

Proses

Yn ôl Nesaf

# Sut y mae cyrff yn gweithio gyda'r Fenter Twyll Genedlaethol

Mae llwyddiant y Fenter Twyll Genedlaethol yn ddibynnol ar natur ragweithiol ac effeithiolrwydd cyrff sy'n cyfranogi o ran ymchwilio i'r pariadau data.

Fe wnaeth y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a gyfranogodd reoli eu rolau yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21 yn dda.

Fodd bynnag, gallai rhai cyrff fod yn llawer mwy rhagweithiol o ran eu dull o ymwneud â'r Fenter Twyll Genedlaethol. Yn arbennig, ychydig iawn o'r pariadau a gawsant yr aeth rhai awdurdodau lleol ati i'w hadolygu ac, o ganlyniad, ni wnaethant ddigon o waith i fynd i'r afael ag achosion posibl o dwyll. Y rheswm dros hyn oedd bod rhai cyfranogwyr yn methu â chydnabod pwysigrwydd yr ymarfer a/neu eu bod yn amharod i ddyrannu digon o adnoddau atal twyll medrus i ymchwilio i bariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol.

Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
Proses
Yn ôl Nesaf

## Datblygiadau yn y dyfodol

- Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried sut i ddatblygu cwmpas y Fenter Twyll Genedlaethol ymhellach yng Nghymru ac mae meysydd posibl ar gyfer paru data sy'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd yn cynnwys tenantiaethau tai, cofrestru cleifion gyda meddygon teulu, ardrethi busnes.
- Mae ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2022-23 bellach yn mynd rhagddo. Mae setiau data wedi cael eu hadolygu ar ôl cyfnod o ymgynghori ac mae cyfranogwyr yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn dechrau cyflwyno data ar gyfer paru.
- Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i hybu a gwella cyfranogiad yn y Fenter Twyll Genedlaethol ledled Cymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 sy'n ei rymuso i gynnal ymarferion paru data er mwyn helpu i atal a chanfod twyll yng Nghymru, neu mewn perthynas â Chymru, a chyhoeddi canlyniadau unrhyw ymarfer o'r fath.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw enw ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n ddau endid cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd, CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru